

SL(5)660 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)(Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") (O.S. 2020/574) mewn cysylltiad â'r gofyniad i ynysu ar deithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd a thiriogaethau esempt".

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn—

- (a) caniatáu i berson y mae'n ofynnol iddo ynysu o dan reoliad 12A o ganlyniad i'r ffaith iddo fod yn Nenmarc, neu fod ar yr un aelwyd â pherson sydd wedi bod yn Nenmarc, adael y man lle y mae'n ynysu er mwyn ymadael â Chymru;
- (b) gwahardd unrhyw awyren neu long sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch;
- (c) ychwanegu Bahrain, Cambodia, Chile, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Gwlad yr Iâ, Laos, Qatar ac Ynysoedd Turks a Caicos at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;
- (d) hepgor Ardaloedd Safleoedd Sofran Akrotiri a Dhekelia ar Ynys Cyprus a Gwlad Groeg i gyd, ac eithrio ynysoedd Corfu, Creta, Kos, Ródhos a Zakynthos, o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt;
- (e) gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau technegol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 4") (O.S. 2020/1219). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S.2020/1237) ("Rheoliadau 2020").

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.



Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(vii): ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Mae rheoliad newydd 12B o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gwahardd unrhyw awyren neu lestr sy'n dod yn uniongyrchol o Ddenmarc rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch. Mewn perthynas â llestr, mae'r testun Saesneg yn diffinio "arrive" yng nghydestun "arrive in Wales" i olygu "to moor at any place" ond mae'r testun Cymraeg yn ei ddiffinio i olygu "angori yn unrhyw fan **arall**" (ychwanegwyd pwyslais).

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 4; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dyls, sef diogelu iechyd y cyhoedd."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi, ac yn falch o ddarllen, y Memorandwm Esboniadol ynghylch ystyriaeth Llywodraeth Cymru o adroddiadau blaenorol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Rheoliadau Rhif 4, Rheoliadau 2020 a diwygiadau technegol dilynol a wnaed i'r Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd blaenorol.



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr un pwynt adrodd Technegol yn unig.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

